12. Blaenant y Gwyddyl

Glyn-nedd, Casrell-nedd, Port Talbot

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 166 yr A.O. – Y Rhondda a Merthyr Tudful; Prif fynedfa: SN883070, Canolfan y safle: SN885076
Statws	Dim
Daliadaeth	Prynwyd yn 1988 gyda phrydles yn para am 999 o flynyddoedd, gyda chefnogaeth gan Lo Prydain dan fenter gan y Llywodraeth, a weinyddwyd gan CFEN. Prynwyd y rhydd-ddaliadaeth wedyn yn 1991.
Maint	10.1 he (24.9 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	0.5 km i'r gogledd o Lyn-nedd. Trowch oddi ar yr A465 yng Nglyn-nedd a dilynwch yr A4109 i'r gogledd, gan gymryd y cyntaf ar y chwith a'r cyntaf ar y dde a pharcio yn Lôn-y-Nant. Ewch dros y gamfa ym mhen uchaf y ffordd, croesi nant a chadw'r ffens ar y dde i chi. Yn y pen uchaf, trowch i'r chwith a daliwch i'r dde o amgylch tomen o hen goed nes dod at lwybr sydd wedi'i ddefnyddio'n helaeth ar y chwith i chi. Dilynwch y llwybr hwn at lwybr arall ar y dde, drwy'r warchodfa natur. Gallwch weld ffens y warchodfa a chamfa ychydig fetrau i ffwrdd. Nid oes modd defnyddio cadair olwyn yn y fan yma.
Cludiant cyhoeddus	Bysus rhifau X75 ac X55 o Orsaf Quadrant yn Abertawe i Lyn-nedd.

Disgrifiad: Coetir ucheldirol hynafol o dderw, nant a rhaeadrau.
Mae Blaenant y Gwyddyl yn ardal o goetir llydanddail lled-naturiol hynafol ar briddoedd o wythiennau glo tenau, ar ochr ogleddol cwm serth Nant Gwyddyl. Ceir sawl cynefin heb goetir yn y fan hon, yn cynnwys gwely creigiog afon Blaenant y Gwyddyl a fwydir gan nentydd yn llifo i lawr ochr y cwm, sawl llannerch eang a chreigiau noeth ger y ddwy raeadr atyniadol.

Mae'r warchodfa'n cynnwys coetir ucheldirol o goed Bedw a Derw Digoes, gydag ardaloedd yn cynnwys coed Ynn, Gwerni, Pisgwydd Dail Bychain, Sycamorwydd a Llwyfain Llydanddail. Nid yw'r isdyfiant wedi datblygu'n dda am fod defaid wedi bod yn pori yma yn y gorffennol, gan roi cymeriad agored i'r warchodfa. Cyll, gyda pheth Masarn Bach, Drain Gwynion, Celyn a Drain Duon, yw'r isdyfiant yn bennaf. Glaswellt a geir ar y ddaear yn bennaf, sef Maeswellt Cyffredin a Brigwellt Mawnog, gyda pheth Eirinllys (6-8). Gwelir amrywiaeth cyfoethocach o blanhigion yn y llaciau gwlyb sydd i'w canfod yma ac acw yn y coed. Hyd yma, mae arolwg botanegol wedi cofnodi 74 o rywogaethau fasgwlaidd o blanhigion a does dim amheuaeth y bydd arolwg llawnach, dros bedwar tymor llawn, yn dyblu'r nifer yna. Ceir sawl ardal sy'n llawn clystyrau mawr o Redyn.

Ymhlith yr adar magu sy'n nodweddiadol o'r cynefin yma mae'r Gnocell Fraith Fwyaf, y Dryw a'r Robin, ynghyd ag adar mudol fel y Gwybedog Brith, y Tingoch a Thelor y Coed.

blaenant y gwyddyl 1 4/7/06, 2:35 pm



Nodau Rheoli: Gwarchod y coetir rhag anifeiliaid yn pori drwy gynnal a chadw ffensys y terfynau, gwella strwythur y coetir drwy reoli'r llennyrch ac annog a hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd.

Amser da i ymweld	
Ebrill – Mehefin	Blodau'r coetir
Mai – Gorffennaf	Adar yn magu
Tachwedd – Mawrth	Rhaeadrau